ADRODDIAD I:	Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych
DYDDIAD:	23 Mawrth 2022
SWYDDOG ARWEINIOL A SEFYDLIAD:	Amanda Jones, Rheolwr Gwella a Datblygu Corfforaethol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
SWYDDOG CYSWLLT A SEFYDLIAD:	Hannah Edwards, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
PWNC:	Grant Cefnogi Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Cymru 2022-23

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi gwybodaeth i'r Bwrdd am y grant sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru (LlC) i ranbarth Gogledd Cymru yn 2022-23, a sut mae'r arian wedi'i ddyrannu ar draws y meini prawf a nodir gan LlC, gan gynnwys manylion am y math o weithgareddau a gynigir. Mae'r ffurflen gais am grant yn Atodiad A a meini prawf y grant yn Atodiad B.

1.2 Mae LlC wedi cymeradwyo'r gweithgareddau grant a chynigion y gwariant ar gyfer 2022/23.

2. Argymhellion

2.1 Bod aelodau BGC yn nodi'r adroddiad, ac yn arbennig y swm bychan sydd ar gael a'r meini prawf sy'n berthnasol

2.2 Bod aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael cyfle i awgrymu meysydd gwaith y gellir eu datblygu gyda'r cyllid cefnogi sydd ar gael. Gall y gwariant yn erbyn y grant fod yn eitem sefydlog ar raglen y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, fel y gellir darparu diweddariadau, ac ystyried meysydd a fyddai'n elwa o'r buddsoddiad.

3. Manylion yr adroddiad

3.1 Bwriad y cyllid yw cynorthwyo Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i adeiladu eu cymhwyster a'u gallu strategol i gefnogi darpariaeth y cynllun lles lleol, yn ogystal â pharhau i gynorthwyo i atgyfnerthu gwaith ar yr asesiad a chynllun lles.

3.2 Mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Cymru (gyda chefnogaeth swyddogion), wedi ystyried sut y gellir defnyddio'r arian hwn yn y rhanbarth i gefnogi datblygiad Cynlluniau Lles ac Asesiadau o Les Lleol. Mae'r cynnig sydd wedi'i ddatblygu yn fwriadol ar lefel uchel ac eang i gynnwys pob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn Rhanbarth Gogledd Cymru ac i ganiatáu hyblygrwydd. Mae cyllid wedi'i ddyrannu fel a ganlyn (mae mwy o fanylion am y gweithgareddau a gynigir yn Atodiad A):

Crynodeb o'r Cynnig	Amserlen Ddisgwyliedig	Ffigurau Dangosol
Adeiladu cymhwyster a gallu ar draws y rhanbarth	01/04/22 - 31/03/23	£20,000
Atgyfnerthu gwaith ar asesiadau (yn cynnwys bylchau mewn sail tystiolaeth, mapio a gwneud synnwyr)		£15,000
Cefnogi datblygu a darparu cynlluniau lles		£70,000
Cyfanswm y grant a ddyfarnwyd		**£105,000**

3.3 Fel y blynyddoedd blaenorol, cynigir arian ar ôl troed bwrdd iechyd, ac mae £103,892 ar gael i Ranbarth Gogledd Cymru ym mlwyddyn ariannol 2022-23. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, fel yr awdurdod arweiniol, wedi gweithio gyda Swyddogion Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Cymru i gyflwyno'r cynnig ar gyfer 2022-23.

3.5 Ni ellir defnyddio'r arian ar gyfer:

- datblygu neu gynnal prosiectau penodol a ddewisir gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (ac eithrio fel rhan o ddarparu'r cynllun lles neu atgyfnerthu'r asesiad neu'r cynllun).
- ariannu swyddi cyflogedig (a nodwyd at y diben hwn fel swydd barhaol a ariennir drwy'r grant cefnogi hwn yn unig).
- cefnogaeth bartneriaeth gyffredinol.

3.6 Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn monitro cynnydd y gwaith a ariennir, gan sicrhau rheolaethau ariannol digonol. Bydd tanwariant a gorwariant yn cael eu monitro'n benodol gan yr awdurdod arweiniol, a rhoddir diweddariadau rheolaidd drwy Rwydwaith Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Cymru.

3.7 Bydd adroddiadau cynnydd chwarterol yn cael eu rhoi i LlC, yn dangos sut mae amcanion yn cael eu bodloni, a sut mae'r gwaith sy'n cael ei ariannu yn ymwneud â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn fwy cyffredinol.

3.6 Bydd cyfnod yr arian o 1 Ebrill 2022 – 31 Mawrth 2023, a thelir yr arian mewn un rhandaliad gan Lywodraeth Cymru ar ddiwedd y cyfnod ariannu, wrth gwblhau ffurflen hawlio foddhaol. Gyda chytundeb gan yr awdurdod arweiniol, bydd partneriaid yn derbyn bil i ddechrau ar gyfer unrhyw waith sy'n cael ei wneud, yna'n anfonebu Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam am y cyfanswm sy'n ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

4. Ymgynghori

4.1 Trafodwyd y cynnig i ddechrau â swyddogion cefnogi Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Cymru ym mis Chwefror 2022. Rhannwyd cynnig drafft ar gyfer adborth â phob un o swyddogion cefnogi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus cyn ei gyflwyno. Yna, rhannwyd y cynnig at sylw cadeiryddion y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

5. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

5.1 Mae yna risg o orwariant gyda'r grant hwn, a fyddai'n debygol o arwain at ddyled ariannol i bartneriaid.

5.2 Mae yna risg o danwario'r grant hwn, a allai gael ei ystyried fel colli cyfleoedd i'r rhanbarth.

6. Pŵer i wneud y penderfyniad

6.1 Mae'r cyllid hwn ar gael i gefnogi Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i fodloni eu hymrwymiadau o ran Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae ar gael yn benodol i gynorthwyo gyda datblygiad cynlluniau lles a'r gwaith parhaus o ddatblygu a chynnal asesiadau o les lleol.

6.2 Os byddwn yn llwyddo, rydym yn disgwyl:

- Bod ein hasesiadau o les lleol yn gyfredol, yn berthnasol ac yn hawdd eu defnyddio, (o leiaf mewn perthynas â'r meysydd blaenoriaeth y mae'r Byrddau Gwasanaethau Lleol wedi'u gosod).
- Cyfranogiad gweithgar ac ystyrlon budd-ddeiliad, yn cynnwys grwpiau anodd eu cyrraedd.
- Bod cynlluniau lles ac adroddiadau blynyddol yn cael eu cyfathrebu'n glir a'u deall gan fudd-ddeiliaid, gan osgoi dyblygu.
- Bod camau a gymerwyd neu a gynlluniwyd i gefnogi amcanion lles wedi'u cwmpasu ar y cyd a'u llywio gan dystiolaeth ac arfer gorau.